

Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Ebrill - Mehefin 2007

CAFFI DYSGWYR

Mae'r cyfle i bobl ymarfer eu Cymraeg wedi dwblu diolch i ddau grŵp sydd wedi ei sefydlu yn Nhalysarn. Mae Nora Jones, o Dalysarn, wedi dechrau Caffi'r Dysgwyr yn y Ganolfan yn Nhalysarn, ac mae Frances Smith, o Benygroes, wedi sefydlu Clwb Sgwrsio yn yr 'Halfway', Talysarn.

Y bwriad yw annog y dysgwyr Cymraeg i ddod at ei gilydd er mwyn cael sgwrsio yn Gymraeg mewn amgylchedd anffurfiol, a thrwy hynny, magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Mae ychydig o lyfrau ar gael yn y caffi i'w darllen, a'r gobaith hefyd yw prynu 'Scrabble' Cymraeg.



Mae'r ddau grŵp yn chwilio am siaradwyr Cymraeg rhugl er mwyn cefnogi'r nifer cynyddol o ddysgwyr.

Mae Caffi'r Dysgwyr ar agor o hanner dydd bod dydd Gwener yn y Ganolfan, Talysarn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Nora ar 01286 882027.

Mae'r Clwb Sgwrsio yn cyfarfod bob nos Fawrth o 8yh yn yr 'Halfway', Talysarn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Frances ar 01286 882809.

CLWB SILYN

Ym mis Ebrill cynhaliwyd cyngerdd arbennig yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn gan Glwb Silyn. Noson arbennig gyda John ac Alun a'r digrifwr Dilwyn Morgan. Roedd y neuadd yn orlawn a phawb wedi mwynhau. Beth am drefnu mwy o nosweithiau fel hyn. Mae grantiau i'w gael trwy gynllun "Noson Allan" i dalu am artistiaid. Ffoniwch 02920 376 540, neu ewch ar y wefan www.nosonallan.org.uk neu galwch yn swyddfa'r Bartneriaeth yng Nghanolfan Talysarn.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

LLYS LLYWELYN

Da yw gweld datblygiad Llys Llywelyn Nantlle yn mynd o nerth i nerth. Gyda chefnogaeth ariannol Rhaglen Cymunedau @ Ei Gilydd a chydweithrediad cwmni Deudraeth Cyf, mae'r dechnoleg diweddaraf yn dechrau clicio.

Gyda'r gweithdai canlynol wedi'u trefnu ac wedi'u cynnal:

- CLIC CLIC ac AWE - cyflwyniad i brosesu geiriau
- Sganio hen ffotograffau
- CLIC CLIC ac AWE – cyflwyniad i'r rhyngwyd
- Ebstio – creu cyfeiriad ebost, gyrru a derbyn negeseuon
- Advanced Photoshop
- Syrffio mwy diogel

Am fwy o wybodaeth am gyrsiau yn Llys Llywelyn cysylltwch gyda Eryl neu Vera.

Mae grŵp newydd wedi sefydlu yn Nantlle o ganlyniad mynediad i'r dechnoleg newydd. Mae grŵp hanes a hen luniau Nantlle a Drws y Coed yn brysur yn casglu hanes yr ardal a hen luniau ac yn eu sganio ar gyfrifiadur. Mae posib gweld rhai o'r lluniau ar gwefan www.nantlle.com. Byddai y grŵp yn falch iawn o gael copi o unrhyw hen luniau o'r ardal. Peidiwch â phoeni os nad yw'r lluniau mewn cyflwr da, gall y cyfrifiadur wneud gwyrthiau a'u gwneud fel newydd!

BAND ROOM

Da yw gweld bod y band yn mynd o nerth i nerth. Gyda thwf yn aelodaeth, yn enwedig y tô ifanc, roedd rhaid cael cyfleusterau gwell. Mae hyn wedi cael ei gydnabod gan Raglen Gweithgareddau a Chyfleusterau y Cynulliad Cenedlaethol gyda chefnogaeth ariannol o dros £90,000 i adnewyddu'r hen Fandroom.

PLANNING FOR REAL®

Yn dilyn yr ymgynghoriad a wnaethpwyd ddiwedd blwyddyn diwethaf, mae'r grŵp llwyio wedi bod yn brysur yn trefnu a chynnal sesiynau blaenoriaethu a chynllunio er mwyn cynhyrchu adroddiad bydd Partneriaeth Talysarn a Nantlle yn ddefnyddio fel eu rhaglen Gweithredu. Mae'r grŵp wedi penodi dau berson lleol i ysgrifennu'r adroddiad ac edrychwn ymlaen i'w derbyn.

HEDDLU

Bydd syrjery yn cael ei gynnal pob dydd Mercher cyntaf o'r mis yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn gyda Gwyn Hughes CBM o 1.45 – 2.45.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

CROSS COOKING

Mewn cydweithrediad â Choleg Prifysgol Cymru Bangor mae grŵp newydd wedi sefydlu i ddatblygu cynllun newydd Cross Cooking. Y bwriad yw casglu hen risetiau traddodiadol lleol a chyfnewid y wybodaeth gyda grwpiau ledled Ewrop. Mae'r grŵp wedi cynnal sesiynau blasu gyda ysgolion Talysarn a Nantlle a Chlwb Silyn yn ddiweddar.

Mis diwethaf fe dreuliodd Mrs Mair Daly o Bro Silyn 4 diwrnod arbennig iawn yn yr Almaen gyda grŵp lleol yn cyfnewid gwybodaeth a blasu bwyd traddodiadol lleol.



Mrs Mair Daly a'r genod Cross Cooking yn brysur yn gwneud bwyd traddodiadol i blant yr ardal a Clwb Silyn.

LLYSIAU LLEU

Mae Llysiau Lleu wedi ail gychwyn gwerthu llysiau pob prynhawn dydd Gwener yn y Ganolfan yn Nhalysarn. Da oedd gweld bod eraill wedi ymuno i werthu cynnyrch lleol yn ystod y prynhawn.

Yn ogystal a llysiau gallwch brynu wyau, cacenau, Jam, 'Chutneys' a blodau. Os oes gennych gynnyrch lleol â hoffech ei werthu, dewch a nhw i'r farchnad yn y Ganolfan brynhawn dydd Gwener. Bydd y farchnad yn agor am 3.30.

TIRWEDD

Roedd ymgyrch Tirwedd i godi arian trwy gynnal Ocsiwn Fawr yn llwyddiant dros ben. Roedd rhywbeth yno at ddant bawb a phawb wedi cael bargeinion.

Diolch unwaith eto i bawb oedd wedi cyfrannu a rhoi rhoddion mor hael.

MANTELL GWYNEDD

Bydd Mantell Gwynedd yn cynnal syrjery un diwrnod y mis yn y Ganolfan er mwyn rhoi arweiniad a chefnogaeth i grwpiau lleol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carys Williams ar 01286 672626.

CRONFA'R YMDDIRIEDOLAETH

Er gwybodaeth i grwpiau lleol, mae'r "Trust Fund" yn agored i chi roi ceisiadau am gefnogaeth ariannol eto eleni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Wena neu Dafydd.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH 2007

Medi 3	–	Llys Llywelyn Nantlle
Hydref 1	–	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Tachwedd 5	–	Llys Llywelyn Nantlle
Rhagfyr 3	–	Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Blwch Syniadau

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfon at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com